COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR PENODIADAU A GYNHALIWYD YN COMMITTEE ROOMS 2/3, CIVIC OFFICES ANGEL STREET BRIDGEND CF31 4WB DYDD MERCHER, 22 IONAWR 2020, AM 16:00

Presennol

Y Cynghorydd HJ David – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| HM Williams | N Clarke | T Giffard | JPD Blundell |
| RL Penhale-Thomas | PJ White | | |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

T Thomas

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Andrew Rees | Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd |
| Kelly Watson | Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Rheoleiddio |
| Debra Beeke | Rheolwr Grŵp – Adnoddau Dynol a Datblygu Trefniadaethol |
| Mark Shephard | Prif Weithredwr |

1. DATGANIADAU O FUDDIANT

Dim

2. Y BROSES BENODI: CYFARWYDDWR CORFFORAETHOL, GWASANAETHAU CYMDEITHASOL A LLES

Gofynnodd y Prif Weithredwr am gymeradwyaeth ar gyfer proses recriwtio swydd Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles gan fod deiliad presennol y swydd wedi rhoi rhybudd ymddiswyddo.

Adroddodd Rheolwr y Grŵp Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol eu bod wedi gofyn am ddyfynbrisiau gan asiantaethau recriwtio sy'n arbenigo mewn recriwtio uwch reolwyr a rolau gweithredol awdurdodau lleol i gefnogi'r Cyngor gyda'r penodiad. Mae Solace in Business am ymgymryd â'r gwaith, mae ganddynt brofiad addas o recriwtio uwch reolwyr a rolau gweithredol awdurdodau lleol i gefnogi'r Cyngor gyda'r penodiad.

Adroddodd Rheolwr y Grŵp Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol ar y broses ddethol sydd i ddilyn, sef y bydd ceisiadau'n cael eu hanfon i Solace in Business er mwyn iddynt asesu a gwerthuso ymgeiswyr yn erbyn y cymwyseddau a bennwyd ac yn rhoi adborth i'r Pwyllgor hwn drwy gydol y broses. Amlinellodd yr amserlen ar gyfer camau'r broses ddethol, ynghyd â disgrifiad swydd a manyleb person ar gyfer y rôl. Ar ôl y dyddiad cau, byddai'r Pwyllgor Penodiadau yn cael ei gynnull i dderbyn adborth gan yr arbenigwr recriwtio ac i gytuno ar restr hir o ymgeiswyr i barhau i'r ganolfan asesu. Dywedodd y bydd y ganolfan asesu yn cynnwys amrywiaeth o ddulliau dethol a bydd aseswyr yn cynnal cyfweliadau rheolaethol / technegol, profion seicometrig, ac asesiadau rhyngweithiol i brofi cymwyseddau allweddol. Bydd y Pwyllgor Penodiadau yn cael adborth ar ôl y ganolfan asesu ac yn cytuno ar restr fer derfynol o ymgeiswyr a fydd yn cael eu gwahodd i gyfweliad gan y Pwyllgor. Bydd y Pwyllgor yn gwneud y penderfyniad terfynol ar y penodiad, gan ystyried canlyniad y ganolfan asesu a'r cyfweliad terfynol.

Trafododd y Pwyllgor yr angen am feincnod i asesu ymgeiswyr ac roedd o'r farn y dylid pennu hyn ar 50%.

PENDERFYNIAD: Bod y Pwyllgor Penodiadau yn:

(i) Cymeradwyo'r disgrifiad swydd a'r fanyleb;
(ii) Cymeradwyo'r broses a amlinellir ym mharagraff 4.3 o'r adroddiad;
(iii) Ailymgynnull ar 11 Mawrth 2020 yn dilyn cyfarfod y Cyngor i bennu'r rhestr hir o ymgeiswyr i'w gwahodd i'r ganolfan asesu;
(iv) Dirprwyo’r penderfyniad o ba ymgeiswyr ddylai symud ymlaen i gam olaf y broses ddethol, i'w cyfweld gan y Pwyllgor Penodiadau, i’r Prif Weithredwr a'r Arweinydd, yn seiliedig ar ganlyniadau'r ganolfan asesu;

Ailymgynnull ar 25 Mawrth 2020 am 9.30am i dderbyn adborth gan y ganolfan asesu ac i gynnal cyfweliadau terfynol a gwneud penderfyniad penodi.

Daeth y cyfarfod i ben am 17:24